OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 No. 363

## Gorchymyn Pysgota Môr (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2019

**Cynnwys hysbysiad cosb**

**4.**—(1) Rhaid i hysbysiad cosb a ddyroddir o dan erthygl 3—

(a) rhoi manylion y drosedd cosb;

(b) datgan swm y gosb;

(c) datgan yn ystod pa gyfnod, yn rhinwedd erthygl 5, na chychwynnir achos ynglŷn â'r drosedd;

(d) datgan i ba berson ac ym mha gyfeiriad y gellir talu'r gosb; ac

(e) datgan bod rhaid peidio â thalu ag arian parod.